ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer unigolion sy'n gysylltiedig â'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion.

# Hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer unigolion sy'n gysylltiedig â'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion.

Yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r wybodaeth a gaiff gan ysgolion ac awdurdodau lleol am y gweithlu ysgolion yng Nghymru.

Caiff y wybodaeth yn yr hysbysiad hwn ei hadolygu'n barhaus er mwyn ymgorffori unrhyw newidiadau pellach a rennir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dylai'r wybodaeth yn yr hysbysiad ychwanegu at hysbysiadau ehangach a gyhoeddir gan yr ysgol a'r awdurdod lleol.

## 1. Cefndir

Casgliad blynyddol o ddata statudol ynghylch y gweithlu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yw'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (SWAC).

Mae **Llywodraeth Cymru** yn casglu gwybodaeth am y gweithlu ysgolion yn uniongyrchol gan ysgolion ac awdurdodau lleol fel rhan o'r SWAC. Yn unol â Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth am y Gweithlu Ysgolion) (Cymru) 2017, a wnaed o dan adran 113(2) a (3) o Ddeddf Addysg 2005.

Mae SWAC yn cwmpasu pob lleoliad ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys:

- ysgolion meithrin a gynhelir;
- ysgolion cynradd a gynhelir;
- ysgolion canol a gynhelir (drwy ysgolion oedran);
- ysgolion uwchradd a gynhelir;
- ysgolion arbennig a gynhelir;
- unedau cyfeirio disgyblion.

Am restr lawn o'r staff y dylid eu cynnwys, gweler yma[1].

Ar ôl derbyn y wybodaeth gan yr ysgol a'r awdurdod lleol, daw Llywodraeth Cymru yn rheolydd data.

[1] Eitemau data i'w casglu yn y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY): https://llyw.cymru/cyfrifiad-blynyddol-or-gweithlu-ysgolion-cbgy-hysbysiad-preifatrwydd

**2. Pa wybodaeth a gaiff Llywodraeth Cymru?**

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodydd'

Mae'r categorïau gwybodaeth am y gweithlu ysgolion a fydd yn cael eu casglu a'u cadw yn cynnwys:

✓ Gwybodaeth bersonol a chategori arbennig amdanoch chi, megis:

- Rhif cyfeirnod athro;
- Enw cyntaf;
- Enw(au) canol);
- Cyfenw;
- Dyddiad geni;
- Rhyw;
- Grŵp ethnig;
- Statws anabledd;
- Rhif Yswiriant Gwladol.

✓ Gwybodaeth am eich cyflog a'ch cytundebau (megis graddfeydd cyflog, lwfansau, cydnabyddiaeth, a rheswm dros adael).
✓ Gwybodaeth am eich absenoldebau (gan gynnwys hyd yr absenoldeb a'i fath)
✓ Gwybodaeth am sgiliau Cymraeg
✓ Gwybodaeth am y pynciau rydych yn eu dysgu, math o swydd a rolau cysylltiedig.

Ceir rhestr lawn o'r eitemau data a gesglir fel rhan o SWAC yma[2].

**3. Beth yw'r sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich data?**

Mae'r sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yn rhan o'n tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. Gelwir rhywfaint o'r data a gesglir gennym (yn yr achos hwn ethnigrwydd ac anabledd) yn 'ddata categori arbennig', a'r sail gyfreithiol dros brosesu'r wybodaeth hon yw ei bod yn cael ei chasglu at ddibenion ystadegol neu ymchwil.

**4. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth?**

Fel rheolydd data, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i gyflawni'r gwaith prosesu data sy'n angenrheidiol er mwyn cwblhau tasgau a wneir er budd y cyhoedd ac wrth arfer swyddogaethau awdurdod swyddogol.

Caiff data eu defnyddio at y dibenion canlynol:

[2] Eitemau data i'w casglu yn y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY): https://llyw.cymru/cyfrifiad-blynyddol-or-gweithlu-ysgolion-cbgy-hysbysiad-preifatrwydd

- ✓ Dibenion ystadegol ac ymchwil er mwyn helpu i lunio polisi addysg, drwy adeiladu sail dystiolaeth gynhwysfawr i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl yng Nghymru, dylanwadu ar y gwaith hwnnw a'i wella.

- ✓ Cefnogi'r gwaith o ragweld cyflogau athrawon yng Nghymru, gan lywio trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch cyflog ac amodau a darparu mwy o dystiolaeth er mwyn helpu i gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol.

- ✓ Llunio dadansoddiadau ar lefel yr ysgol a'r awdurdod lleol ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

- ✓ Nodi achosion anghydraddoldeb o ran cyflogaeth, sgiliau a chyflog sy'n gysylltiedig â rhywedd, ethnigrwydd, oedran ac anabledd a lleihau nifer yr achosion hynny.

- ✓ Cysylltu â setiau data eraill, er mwyn llywio polisïau addysg, iechyd a chymdeithasol ehangach. Ymysg yr enghreifftiau o setiau data y gallwn gysylltu â nhw mae data ar fyfyrwyr a graddedigion gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch neu ddata ar gyflogaeth a lles gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Dim ond lle y bo'n gyfreithlon i ni wneud hynny y byddwn yn cysylltu setiau data.

Yn ogystal â deddfwriaeth diogelu data, rheolir ein defnydd o ddata at ddibenion ystadegol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau (“y Cod”). Mae Egwyddor T6 o'r Cod yn cwmpasu rheoli data.

Cyhoeddir gwybodaeth sy'n deillio o'r data fel ystadegau swyddogol dienw ac mewn nifer o fformatau hygyrch i'w defnyddio gan ystod eang o sefydliadau ac unigolion (gan gynnwys ymchwilwyr academaidd, cwmnïau preifat, cyrff proffesiynol a'r cyfryngau). Cyhoeddir ystadegau a cheisiadau am waith dadansoddi yn ddienw a heb ddatgelu manylion unigolion, sy'n golygu na ellir adnabod unigolion.

Bydd canlyniadau gwaith dadansoddi a wneir gan ddefnyddio'r data ar gael ar lefel gyfanredol mewn cyhoeddiadau ystadegol neu ymchwil drwy wefan Llywodraeth Cymru a hefyd drwy ddata a gyhoeddir ar wefan StatsCymru.

Caiff defnyddwyr allanol megis ysgolion, awdurdodau lleol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y cyfryngau a'r cyhoedd ddefnyddio'r wybodaeth hon at eu dibenion eu hunain, megis rheoli a chynllunio’r gweithlu; gwella arfer a dwyn y llywodraeth i gyfrif.

### 5. Â phwy y bydd Llywodraeth Cymru'n rhannu eich gwybodaeth?

Gall Llywodraeth Cymru rannu eich gwybodaeth bersonol â'r sefydliadau canlynol:

- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr;
- gweinyddwr y Cynllun Pensiwn Athrawon;
- awdurdodau lleol yng Nghymru;
- Cyngor y Gweithlu Addysg;
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru;

- swyddfa economeg y gweithlu.

Gall ymchwilwyr achrededig, megis academyddion ac ymchwilwyr ym maes addysg, a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru wneud cais i weld y data. Creffir ar y ceisiadau hyn gan Brif Ystadegydd Llywodraeth Cymru ac - os cânt eu cymeradwyo - cânt eu rheoli gan Gytundebau Mynediad at Ddata a gyhoeddir gan Llywodraeth Cymru. Mae'r cytundebau ffurfiol hyn yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel, gan gynnwys:

- sicrhau bod data'n cael eu trosglwyddo, eu storio a'u dinistrio'n ddiogel yn y pen draw.
- cynnwys gwybodaeth bersonol dim ond os oes rheswm clir, sail gyfreithiol a chyfiawnhad sylweddol dros wneud hynny;
- cyfyngu'r defnydd i'r gofyniad penodol a nodir, gan sicrhau na chaiff unrhyw unigolyn ei adnabod mewn unrhyw adroddiadau a gyhoeddir;
- caniatáu i'r data gael eu storio dim ond am gyfnod y prosiect ymchwil, gan ei gwneud yn ofynnol i'r data gael eu dinistrio'r ar ôl y cyfnod hwnnw.

Caiff data o'r SWAC eu paru dros amser er mwyn gwneud gwaith dadansoddi hydredol neu cânt eu cysylltu â ffynonellau data eraill gan ddefnyddio trydydd parti y gellir ymddiried ynddo at ddibenion ymchwil anfasnachol. Nid yw data a gaiff eu cysylltu a'u paru yn darparu gwybodaeth sy'n datgelu manylion unigolion i ymchwilwyr. Nid ydym yn rhannu eich gwybodaeth nac yn ei defnyddio at ddibenion masnachol na marchnata. I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn paru ac yn cysylltu data, ac am y sefydliadau trydydd parti perthnasol, gweler yma[3].

**6. Am ba hyd y byddwn yn cadw'r wybodaeth hon?**

Caiff data personol eu cadw am gyfnod o saith mlynedd o leiaf ar ôl iddynt gael eu casglu er mwyn cynnal dadansoddiad ystadegol o dueddiadau dros gyfnod safonol o bum mlynedd. Ar ôl hynny, caiff y data eu hadolygu a'u gwneud yn ddienw yn unol ag arferion gorau a chânt eu defnyddio at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig.

O ran cadw data, mae Erthygl 5 o'r GDPR, "Egwyddorion ynghylch prosesu data personol" yn datgan y gellir cadw data personol am gyfnodau hwy os yw hynny at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol. Caiff y data eu prosesu yn unol â'r ddeddfwriaeth hon.

Caniateir i ddata a rennir â thrydydd partïon at ddibenion ymchwil gael eu rhannu am gyfnod y prosiect ymchwil yn unig, a bydd yn rhaid i'r data gael eu dinistrio ar ôl y cyfnod hynny.

I gael rhagor o wybodaeth am ein hamserlen cadw data a'r ffordd rydym yn diogelu eich data, ewch i wefan Polisi rheoli a llywodraethu gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

**7. Hawliau Pob Unigolyn**

[3]https://llyw.cymru/cysylltu-pharu-data-hysbysiad-preifatrwydd

O dan y GDPR, mae gennych yr hawliau isod mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a gesglir fel rhan o'r SWAC.

Yn benodol, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- cael copi o'ch data eich hun;
- gofyn i ni gywiro unrhyw anghywirdebau yn y data hynny;
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar y gwaith o brosesu eich data (o dan amgylchiadau penodol)
- gofyn am i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol);
- anfon cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Ceir canllawiau ar yr hawliau hyn ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**8. Rhagor o Wybodaeth**

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r SWAC cysylltwch â thîm Data'r Gweithlu Addysg Llywodraeth Cymru:

Cyfeiriad e-bost: SWAC.CBGY@gov.wales

Ffôn: 0300 025 6367

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac yn ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data: Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Cyfeiriad: Wycliffe House Water Lane
Wilmslow Cheshire SK9 5AF

Ffôn - Llinell gymorth: 029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)

Gwefan: www.ico.org.uk